Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol i Oedolion

Tachwedd 2019

Mae'n gwasanaeth Therapi Galwedigaethol ar gael i unrhyw un dros 18 oed sydd â chyflyrau iechyd parhaol sylweddol sy'n eu heffeithio eu hunain a'u teuluoedd wrth fyw eu bywydau bob dydd yn eu cartrefi a'u cymunedau. Rydym yn credu fod 'galwedigaeth' yn hanfodol i iechyd a lles pobl. Mae cefnogi pobl i wneud eu gwaith a gweithgareddau ystyrlon yn sail i arfer therapi galwedigaethol (Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, 2017).

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chod Ymddygiad Therapi Galwedigaethol (2016), ein nod yw cynorthwyo pobl i oresgyn eu rhwystrau ac adeiladu ar eu cryfderau, gan ddarparu'r lefelau angenrheidiol o wybodaeth a chyngor i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau. Pan fydd angen help arbenigol mae'r tîm yn gallu darparu cynlluniau canllawiau Symud a Thrin, adroddiadau tai a llwybrau mynediad at offer ac addasiadau pan mai dyna fydd y datrysiad gorau.

Maent yn gweithio mewn partneriaeth gyda phobl yn y gymuned a gweithwyr proffesiynol eraill, er mwyn darparu eu harbenigedd er mwyn darganfod datrysiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Pwy ydym ni?

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol mae Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Anabledd yn gweithio fel rhan o'r tîm Derbyn Therapi Galwedigaethol Cyswllt Cyntaf, Gwasanaethau Bro ac Ail-alluogi, ac mae therapydd galwedigaethol yng Ngwasanaethau Tai. (Mae taflen arall ar gael ar gyfer 'Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol i Blant'). Gellir cysylltu â'r Therapydd Galwedigaethol a Arweinir gan Ymgynghorydd ar 01352 803444 neu anfonwch e-bost at SSDUTY@flintshire.gov.uk am fwy o gyngor a gwybodaeth.

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Atgyfeiriadau:
Gallwch chi neu rywun ar eich rhan, gysylltu â'n Tîm Cyswllt Cyntaf os ydych am gefnogaeth, er mwyn trafod beth yr hoffech ei gyflawni. Byddant yn eich cefnogi drwy gael sgwrs er mwyn darganfod beth sy'n bwysig i chi, nodi eich cryfderau a thrafod beth sy'n eich rhwystro rhag cyflawni eich nodau hefyd. Mae'n bosib y byddant yn gallu rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i chi er mwyn eich galluogi chi a / neu'ch teulu neu'ch cymuned i ddod o hyd i ddatrysiad eich hun ar y pwynt hwn.

Os na fydd hyn yn bosib, byddai atgyfeiriad, y cyfeirir ato fel ymholiad, yn cael ei gofnodi a'i rannu gyda'r tîm perthnasol.

Brysbennu:
Mae atgyfeiriadau a dderbynnir yn cael eu sgrinio gan Reolwyr Tîm o fewn tri diwrnod gwaith a bydd cyngor ynglŷn â chyfeirio ymlaen yn cael ei roi os nad ydynt yn briodol. Mae'n bosib y bydd y rheolwr yn gofyn am wybodaeth bellach er mwyn cefnogi'r penderfyniad hwn. Bydd unrhyw gamau gweithredu y gellir eu cefnogi yn syth yn cael eu gwneud, fel darparu gwybodaeth neu gyngor i leihau risgiau.

Ni all y tîm ddarparu ymateb i argyfwng felly os oes gennych angen brys, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu, NHS Direct neu 999 fel bo'n briodol.
Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd atgyfeiriadau yn cael eu hychwanegu at ein rhestr aros er mwyn eu dyrannu pan fydd y gallu gan y tîm.

Dyraniadau:
Mae'r cyfnod aros ar gyfer y rhan fwyaf o achosion yn amrywio o ddyddiau hyd at dri mis yn gyffredinol wedi brysbennu, yn ddibynnol ar yr asesiad angenrheidiol. Mae'r tîm i gyd yn gweithio mor galed ag y gallant er mwyn cwblhau eu gwaith gan sicrhau fod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi.

Os oes gennych unrhyw bryderon yn ystod y cyfnod aros hwn neu os hoffech ofyn unrhyw gwestiynau, cysylltwch â 01352 803444 i adael neges neu anfonwch e-bost at ac fe fyddwn yn ceisio cysylltu'n ôl â chi cyn gynted â phosib.

Asesiadau:

Efallai y byddech yn elwa o asesiad, lle bydd Swyddog Anabledd neu Therapydd Galwedigaethol yn ymweld â chi er mwyn trafod eich canlyniadau wyneb yn wyneb. Sgwrs yw asesiad mewn gwirionedd, sy'n cychwyn drwy sefydlu beth sy'n bwysig i chi a beth hoffech chi ei gyflawni. Byddwn yn falch o gynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr fel bo'n briodol.

Mae'n rhoi cyfle i adlewyrchu ar beth sy'n gweithio'n dda a pha bethau sydd ddim yn mynd mor dda. Bydd yr holl opsiynau yn cael eu hystyried a'u trafod cyn creu cynllun.

Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu mwy nag un ymweliad ac y bydd rhaid i bobl eraill gynorthwyo i gasglu'r holl wybodaeth a gwneud i bethau weithio. Bydd y wybodaeth yma'n cael ei gofnodi ar ein system electronig PARIS a byddwch yn derbyn copi yn ogystal ag unrhyw ffurflenni eraill y byddwn yn eu cwblhau.

Rydym wedi ein hyfforddi ac mae gennym brofiad o weithio gyda phobl ag anableddau fel y gallwn eich cynorthwyo i gyflawni'ch canlyniadau wrth ystyried eich amgylchiadau a'ch amgylchedd personol. Yn ogystal â thrafod eich sefyllfa, mae'n bosib y byddwn am wylio sut rydych yn gwneud pethau er mwyn ffurfio rhan o'r asesiad.

Ymyriadau:

Ar y pwynt hwn, mae'n bosib y byddwn yn gallu rhoi cyngor a chymorth i chi, eich teulu neu eich cymuned i ddod o hyd i ddatrysiadau er mwyn hyrwyddo'ch annibyniaeth a'ch lles. Mae gennym gysylltiadau agos â'r gwasanaethau gwirfoddol a grwpiau cymunedol y gallech gysylltu â nhw. Mae gennym hefyd wybodaeth ar fathau o offer y gallwch eu prynu neu newidiadau y gallech eu gwneud i'ch cartref neu i'ch ffordd o fyw er mwyn gwneud bywyd yn haws i chi.

Mae'n bosib y bydd asesiad gan ein Therapyddion Galwedigaethol Ail-alluogi a Ffisiotherapyddion yn cael ei argymell, yn enwedig wedi i chi fod yn yr ysbyty neu ar ôl newid yn eich gallu, er mwyn dangos ffordd newydd i chi o reoli pethau a'ch helpu i gael pethau yn ôl i'r arfer.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth a chymorth i chi, gall y tîm therapi galwedigaethol wneud cais am offer ac addasiadau. Gweler ein taflenni ar Addasiadau ac Offer am fwy o wybodaeth ar y meysydd hyn.

Er mwyn sicrhau fod y rhain yn cael eu defnyddio'n deg er mwyn cefnogi pawb sydd mewn angen, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd angen i'r Therapydd Galwedigaethol sicrhau fod y rhain yn hanfodol ar gyfer eich canlyniadau ac na allent gael eu darparu mewn unrhyw ffordd arall. Mae panel rheoli yn cwrdd bob wythnos er mwyn sicrhau fod ceisiadau a wneir yn gymesur ac yn cael eu hystyried yn llawn er mwyn sicrhau fod adnoddau'n cael eu defnyddio'n deg.

Nodwch fodd bynnag, pan fydd teuluoedd yn denantiaid i'r cyngor, cymdeithasau tai neu landlordiaid preifat, rhaid i'r landlordiaid gytuno i unrhyw addasiadau (gwaith adeiladu neu ffitio offer sefydlog), hyd yn oed os yw'r Therapydd Galwedigaethol yn eu cefnogi.

Cynnal a chadw, atgyweirio a gwasanaethu:

Mae'n bwysig nodi fod yn rhaid cynnal a chadw a rhoi gwasanaeth rheolaidd i beth o'r offer sy'n cael ei ffitio drwy'r grantiau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithio'n dda. Os ydych yn byw yn eich eiddo eich hun, mae'n debygol y byddwch yn gyfrifol am hyn unwaith bydd y warant wedi dod i ben, felly trafodwch hyn cyn i'r gwaith gael ei wneud os gwelwch yn dda fel y gellir rhoi cynllun yn ei le.

Mewn llety cyngor neu gymdeithas dai, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r systemau sydd yn eu lle. Cysylltwch â'ch tîm tai os oes gennych chi unrhyw gwestiwn.

Er mwyn trafod atgyfeiriad cysylltwch â:

Gwasanaethau Cymdeithasol, Preswylfa, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug,

Sir y Fflint, CH7 1PZ

☎03000 858 858 E-bost: spoa@flintshire.gov.uk

Os oes gennych fwy o gwestiynau am y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol

cysylltwch â: Y Prif Therapydd Galwedigaethol ar 03000 858 858

neu anfonwch e-bost at: SSDUTY@flintshire.gov.uk

I gael copi o'r daflen hon mewn braille, print bras, CD neu dap, ffoniwch 03000 858 858.

Cwestiynau a chwynion

Os nad yw pethau'n mynd yn iawn

Rydym yn ymwybodol er gwaethaf ein hymdrechion gorau efallai y bydd achlysuron pan fydd gan ddefnyddiwr gwasanaeth gwyn.

Gellir gwneud unrhyw gwyn ynghylch y gwasanaethau drwy eich Therapydd Galwedigaethol neu Swyddog Anableddau neu Reolwr Tîm.

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, dylech gysylltu â:

Y Swyddog Cwynion
Gwasanaethau Cymdeithasol
Tŷ Dewi Sant
St David's Park
Ewloe
Sir y Fflint CH5 3XT

Rhif Ffôn: 01352 702623
E-bost: ian.maclaren@flintshire.gov.uk

Mae taflen "Eich Hawl i Ganmol a Chwyno" sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin ar gael o'r un cyfeiriad neu ar ein gwefan yn www.flintshire.gov.uk/careinfo

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

Cyf: A10